# RHESTR WIRIO DIGWYDDIADAU A CHYFARFODYDD

## GADEWCH I NI LEIHAU EIN HEFFAITH

Drwy leihau faint o garbon rydym yn ei gynhyrchu, gallwn helpu i arafu effeithiau newid hinsawdd. Os ydych yn gweithredu fel unigolyn, neu ar ran clwb, sefydliad neu ddigwyddiad chwaraeon mawr, mae nifer o gamau y gallwch eu cymryd i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.

- Bod yn ymwybodol o'r hinsawdd – dechrau'n fach, meddwl yn fawr.
- Yr ystyriaeth gyntaf bob amser yw a ellir cynnal y digwyddiad ar-lein? Er nad yw hyn yn bosibl bob amser, mae'n werth ystyried y mater ar y dechrau un.
- Dyma restr wirio o bethau eraill i'ch helpu i ddechrau:

# RHESTR WIRIO DIGWYDDIADAU A CHYFARFODYDD

## LLEOLIAD

- ☐ Ystyriwch a oes gan y lleoliad bolisi amgylcheddol/cynaliadwy. Os oes modd, dewiswch y lleoliad sy'n cymryd camau i fod yn fwy cynaliadwy
- ☐ Ceisiwch ddewis lleoliad sydd â chysylltiadau cludiant cyhoeddus da

## DIGWYDDIADAU AWYR AGORED

- ☐ Ymchwiliwch i'r amser gorau o'r flwyddyn i gynnal eich digwyddiad yn yr awyr agored e.e. osgoi'r tymor nythu
- ☐ Dewiswch leoliad sy'n briodol ar gyfer nifer y bobl fydd yn dod i'r digwyddiad, er mwyn lleihau erydiad a sicrhau nad oes gormod o bobl mewn un lle
- ☐ Ystyriwch drefniadau parcio a rhowch gyhoeddusrwydd clir iddynt
- ☐ Ystyriwch gamau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau posibl ar yr amgylchedd ar ôl y digwyddiad e.e. drwy drefnu digwyddiad casglu sbwriel.

## BWYD A DIOD

- ☐ Ystyriwch ddefnyddio arlwywyr sydd â pholisi amgylcheddol/ cynaliadwyedd
- ☐ Defnyddiwch gyflenwyr lleol sy'n prynu eu cynnyrch yn lleol ac yn gynaliadwy
- ☐ Darparwch ddewisiadau bwyd di-gig pryd bynnag y bo modd
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod te, coffi, siwgr a siocled yn gynnyrch Masnach Deg, neu o ffynhonnell debyg
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod lle pwrpasol i ail-lenwi poteli (tap neu beiriant dŵr) – peidiwch â defnyddio poteli untro
- ☐ Defnyddiwch gwpanau, platiau a chyllyll a ffyrc y gellir eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio ac nad ydynt wedi'u gwneud o blastig untro.

## TEITHIO A THRAFNIDIAETH

- ☐ Rhannwch gysylltiadau cludiant cyhoeddus â phobl sy'n dod i'r digwyddiad a cheisiwch amseru digwyddiad i gyd-fynd â'r rhain
- ☐ Rhowch fanylion lle diogel i gadw beiciau (ar y safle neu gerllaw)
- ☐ Meddyliwch am ffyrdd o gymell pobl i beidio â defnyddio eu car
- ☐ Rhowch gyhoeddusrwydd i safle rhannu lifft y BMC
- ☐ Os oes modd, lluniwch arolwg er mwyn cofnodi sut y gwnaeth pobl deithio i'r digwyddiad
- ☐ Anogwch bobl sy'n teithio mewn car i gefnogi Prosiect Hinsawdd y BMC.

## ARDDANGOSFEYDD MARCHNATA A PHAPURAU CYFARFODYDD

- ☐ Gwnewch yn siŵr bod modd ailddefnyddio deunydd arddangos ar safle (baneri, fflagiau ac yn y blaen) neu bod modd eu hailgylchu ac nad ydynt wedi'u gwneud o blastig untro
- ☐ Defnyddiwch gyfryngau hysbysebu digidol cyn y digwyddiad – peidiwch ag argraffu deunyddiau
- ☐ Defnyddiwch godau QR i gyfeirio pobl at ragor o adnoddau
- ☐ Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid, ac anfonwch holl ddeunyddiau'r cyfarfod / digwyddiad yn electronig cyn ac yn ystod y cyfarfod
- ☐ Defnyddiwch fyrddau sialc/byrddau gwyn yn lle papur a deunyddiau wedi'u hargraffu
- ☐ Os oes rhaid argraffu, defnyddiwch ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, ac y gellir eu hailgylchu, argraffwch ar ddwy ochr y dudalen a pheidiwch ag argraffu mwy nag sydd raid.

## NWYDDAU A DEFNYDDIAU TRAUL

- ☐ Defnyddiwch gyn lleied ag sy'n bosibl o nwyddau a defnyddiau traul
- ☐ Dylai unrhyw nwyddau a defnyddiau traul fod wedi'u prynu'n foesegol, gan ystyried yr amgylchedd, ac ni ddylent fod wedi'u gwneud o blastig untro
- ☐ Ystyriwch ddewisiadau amgen SWAG:
  - Hadau/coed i'w plannu
  - Tocynnau anrheg siop BMC
  - Cyfrannu tuag at Brosiect Hinsawdd
  - Ffurfio partneriaeth â noddwr ar gyfer codau disgownt ar-lein
  - Clytiau trwsio dillad BMC
- ☐ Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gwastraffu nac yn archebu gormod o nwyddau drwy gofnodi meintiau pan wneir archeb (os oes angen dillad) a gwnewch yn siŵr bod modd defnyddio nwyddau mewn mwy nag un digwyddiad
- ☐ Ceisiwch weithio gyda noddwyr sy'n cymryd camau i fod yn fwy cynaliadwy a moesegol

## AILGYLCHU A GWASTRAFF

- ☐ Er mwyn gwastraffu llai o ynni, trowch gyfarpar trydanol ac electronig i ffwrdd, gan gynnwys goleuadau, pan nad ydynt yn cael eu defnyddio neu pan fyddwch yn gadael.
- ☐ Os cynnyrch untro yw'r unig opsiwn, gwnewch yn siŵr bod modd eu hailgylchu neu eu compostio.
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod biniau ailgylchu ar y safle
- ☐ Peidiwch â defnyddio plastig untro.

## ADDYSGU AC YSBRYDOLI

- ☐ Hysbyswch yr holl randdeiliaid ynglŷn â'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud y digwyddiad / cyfarfod mor gynaliadwy ag sy'n bosibl
- ☐ Rhannwch y camau cynaliadwy ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac anogwch eraill i wneud yr un fath
- ☐ Dysgwch o ddigwyddiadau eraill a symudwch tuag at ddarparu digwyddiad carbon niwtral.